

Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

Cyfarfod Blynyddol

Dydd Sadwrn 23 Gorffennaf 2022

Trwy Gyfrwng Zoom

Yn Cymeryd Rhan

Huw Jones (Cadeirydd), Menna Jones, Gwenda Griffith, Garffild Lewis, Cynghorydd Jina Gwyrfai, Dorothi Clowes, Gwyn Jones, Mair Saunders, Jim O'Rourke, Jo Iwan, Rhiannon Ceiri, Deio Jones, Phyllis M. Ellis.

Ymddiheuriadau

Martyn Croydon, Jeff Williams Jones(ynuno yn hwyrach)

Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Huw Jones.

1. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf, 2021 fel rhai cywir.

2. Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

3. Adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2021

Cyfeiriodd at y golled fawr a ddiodeffodd y Nant ym marwolaeth ei sylfaenydd Carl Clowes, ei weledigaeth ef fu'n gyfrifol am sefydlu'r Nant a bu teyrngedau lu iddo ar y cyfryngau. Bydd cyfarfod arbennig i gofio amdano ym Mhabell y Dysgwyr (Maes D) ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Oherwydd cyfyngiadau Covid bu'r ganolfan ar gau ond llwyddwyd i ddarparu gwersi ar lein ac ail agorwyd ganol mis Ebrill ond o dan gyfyngiadau rhannol. Trwy waith diflino Mair Saunders, y prif weithredwr a thim bychan o'r staff llwyddwyd i warchod y safle, gwneud gwaith cynnal, a chadw cysylltiad gyda'r dysgwyr trwy wefan y Nant. Uwchraddiwyd nifer o'r tai ac ychwanegwyd adlen gysgodi tu allan i'r Neuadd. Ail godwyd meddygfa wreiddiol Llithfaen ar y safle ac agorwyd gan y Dr. Eilir Hughes ym mis Mehefin.

4. Cyfrifon 2021

Llwyddwyd i droi colled 2020 yn elw eleni, hyn yn golygu fod y cwmni wedi gallu ad-dalu benthyciad cwmni Linbury. Bydd copi o'r cyfrifon ar gael i unrhyw un aelod sydd eu hangen trwy gysylltu â'r Prif Weithredwr. Mae 34 o bobl yn cael eu cyflogi gan y Nant ar hyn o bryd.

5. Ymddeoliad Ymddiriedolwyr

Roedd Clive Wolfendale, y Trysorydd wedi ymddiswyddo a diolchwyd iddo am ei wasanaeth am nifer o flynyddoedd. Oherwydd pwysau gwaith roedd Myrddin ap Dafydd hefyd yn dymuno ymddeol o fod yn ymddiriedolwr. Roedd tymor Jo Iwan, Ann Hughes a Phyllis Ellis

yn dod i ben a gan eu bod yn fodlon parhau yn y swydd fe'u hail etholwyd am dymor arall. Roedd Menna Jones yn dymuno ymddiswyddo fel Is-Gadeirydd oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl, ond roedd yn barod i barhau yn Ymddiriedolwr.

6. Ethol Ymddiriedolwyr Newydd

Cadarnhawyd Garffild Lloyd Lewis, Rhiannon Ceiri a Martyn Croydon fel ymddiriedolwyr newydd.

7. Newid Erthyglau'r Cwmni

Cytunwyd i newid erthyglau'r Cwmni i ganiatau cynyddu nifer yr ymddiriedolwyr i **ddeuddeg**.

8. Ethol Swyddogion

Penodwyd fel a ganlyn:

Cadeirydd - Huw Jones,

Is-Gadeirydd - Garffild Lloyd Lewis

Trysorydd – y bwrdd i drafod ymhellach

Ysgrifennydd - Phyllis M. Ellis

9. Ethol Cyfrifwyr

Penodwyd olynwyr Cwmni Owain Bebb (Emyr Mortimer) am flwyddyn ar yr amod bod y cwmni ar ei ffurf newydd yn dangos y gallu i ddygymod â gofynion archwilio, ac i ail edrych ar y sefyllfa ar gyfer y dyfodol.

10. Daeth y cyfarfod i ben am 9.30.